PWY I WELD I SIARAD A HWYNT A PHRYD

TREFN YMWELD

Mae croeso i chwi alw unrhyw amser ond byddwch gystal â gwneud apwyntiad gyda'r Pennaeth, Mrs Alison Halliday. Rydym i gyd yn cydweithio er lles a hapusrwydd pob plentyn yn yr ysgol.

WHOM TO SPEAK TO AND WHEN

VISIT GUIDELINES

You are welcome to call at any time, but please make an appointment with the head teacher, Mrs Alison Halliday. We all work together for the benefit and happiness of each child at the school.

AMSER YSGOL / *SCHOOL HOURS*

Oriau'r ysgol yw : 8.45- 3.00 Babanod/*Infants*
***School Hours* :** 8.45 - 3.00 Iau/*Juniors*

CYSYLLTU A'R YSGOL/*CONTACTING THE SCHOOL*

Rhif ffôn / *Telephone:* 01248 600760

Rhif ffacs / Fax: 01248 600760

e-bost / e-mail: AlisonHalliday@gwynedd.gov.uk

Pennaeth / Head Teacher: Mrs Alison Halliday B.Add.

Pennaeth Cynorthwyol/Assistant Head: Miss Lliwen Owen

Cadeirydd y Llywodraethwyr /: Chair of Governors Mrs Mary Hayes

AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD/ GWYNEDD EDUCATION AUTHORITY

Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion / *Head of Schools' Service*
Cyfadran Datblygu / *Development Directorate Development Directorate*
Swyddfa'r Cyngor / *Council Offices*
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

STAFF YR YSGOL - *THE SCHOOL STAFF*

Pennaeth/*Headteacher*	Mrs Alison Halliday B.Add
Pennaeth Cynorthwyol	Miss Lliwen Owen
Staff Dysgu/*Teaching Staff*	Miss Susan Owen Mrs Ceri Foulkes Miss Angharad Price
Cymhorthyddion Dosbarth/ ***Classroom Assistants***	Mrs Annette Williams Ms Kate Smith
Ysgrifenyddes/Secretary	Mrs Ceri Halliday
Athro Teithiol Chwythbrennau/ ***Woodwind Peripatetic Teacher***	Mrs Jane Parry

Staff Ategol / *Ancillary Staff*

Mrs Anwen Morris	Cogyddes/*Cook* Clerc Cinio/*Dinner Clerk*
Mrs Dana Thomas	Glanhawraig */ Caretaker*
Mrs Wendy Edwards	Glanhawraig / *Cleaner*
Mrs Mary Hayes	Gorchwylwraig Amser Cinio / *Dinner-time Supervisor*
Mrs Wendy Edwards Mrs Dana Thomas	Clwb Brecwast / *Breakfast Club*

Nyrs Ysgol/School Nurse	Ms Jackie Griffiths Meddygfa Yr Hen Orsaf Bethesda Gwynedd 01248 603113

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL BODFEURIG GOVERNING BODY

Mae aelodau'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol, yn ôl y gyfraith, am reolaeth gyffredinol yr ysgol. Maent yn gyfrifol am sicrhau addysg o ansawdd uchel yn yr ysgol trwy gydweithio â'r Pennaeth a'r staff i lunio strategaethau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial. Diben y corff Llywodraethol yw cynghori, darparu gwybodaeth a chefnogi'r Pennaeth a staff yr ysgol.

Mae'r Llywodraethwyr yn cwrdd o leiaf unwaith y tymor. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Llywodraethwyr â rhieni ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

Os dymunai rhiant drafod mater gyda'r Corff Llywodraethol, dylid gwneud hynny trwy anfon gair yn ysgrifenedig at glerc y Llywodraethwyr.

The Governors have a legal obligation for the school's general management. They are responsible for ensuring that pupils receive a high standard of education through working with the Headteacher and staff to prepare strategies to ensure that pupils achieve their full potential. The purpose of the Governing body is to advise, provide information and support the Headteacher and school staff.

The Governors hold a meeting at least once a term. A Governors and Parents Annual General Meeting is held annually in November.

If a parent wishes to discuss an issue with the Governing Body, the clerk of governors should be notified in writing.

Y LLYWODRAETHWYR *GOVERNORS*

Cadeirydd/*Chairman*	Mrs Mary Hayes	Aelod cyfoetholedig
Is gadeirydd/*Deputy chairman*	Mr Osian Evans	Rhieni/*Parent*
Aelodau'r Pwyllgor /	Mrs Alison Halliday	Pennaeth/Headteacher
Members of the Committee	Mrs Gwen Griffith	Awdurdod Lleol/ *LEA*
	Mrs Karen Duggan	Awdurdod Lleol/*LEA*
		Cymunedol/*Community*
	Mrs Anwen Morris	Staff Ategol/*Support Staff*
	Ms Claire Lynch	Rhieni/*Parent*
	Trys Burke	Rhieni/ *Parent*
		Athrawon/ *Teaching Staff*

Gwyliau Ysgol 2015-2016 School Holidays

Tymor yr Hydref 2015 Autumn Term

- **Dechrau/ Start :** Dydd Mawrth, 1 Medi/ Tuesday, 1 September
- **Plant yn cychwyn/Children Start :** Dydd Mercher, 2 Medi / Wednesday,2 September
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 26 Hydref - ddydd Gwener, 30 Hydref
- **Half Term :** Monday, 26 October – Friday, 30 October
- **Gorffen/Finish:** Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr/Tuesday, 22 December

Tymor y Gwanwyn 2016 Spring Term

- **Dechrau/Start:** Dydd Llun, 4 Ionawr / Monday , 4 January
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 15 Chwefror - ddydd Gwener, 19 Chwefror
- **Half Term:** Monday, 5 February – Friday, 19 February
- **Gorffen/Finish:** Dydd Iau, 24 Mawrth / Thursday , 24 March

Tymor yr Haf 2016 Summer Term

- **Dechrau/Start :** Dydd Llun, 11 Ebrill/ Monday , 11 April
- **Calan Mai** (Gŵyl banc): Dydd Llun, 2 Mai
- **May Day** (Bank Holiday): Monday, 2 May
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 30 Mai - ddydd Gwener, 3 Mehefin
- **Half Term:** Monday,30 May – Friday, 3 June
- **Gorffen/Finish :** Dydd Llun, 18 Gorffennaf / Monday , 18 July

Dyddiau Hyfforddiant Athrawon i'w gadarnhau/ Staff training days to be confirmed

Dalier Sylw

Er mwyn sicrhau diogelwch plant, mae staff yr ysgol yn cadw golwg arnynt yn ystod y cyfnodau canlynol:

Cyn i'r ysgol ddechrau	10 munud (08:35 – 08:45)
Egwyl y Bore	15 munud (10:15 – 10:30)
Egwyl Cinio	60 munud (11.45 – 12:45)
Egwyl Prynhawn	10 munud (2:00 – 2:10) Babanod
Diwedd y Prynhawn	10 munud (3:00 – 3:10)

Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw blentyn na digwyddiad cyn 8:00 y bore nac ar ôl 3:10 y prynhawn

Please Note:
So as to safeguard children's safety, they are monitored by school staff during the following periods:

Before school starts	*10 minutes (08:35 – 08:45)*
Morning Play Time	*15 minutes (10.15 – 10:30)*
Dinner Time	*60 minutes (11.45 – 12.45)*
Afternoon Play Time	*15 minutes (2:00 – 2:10)*
End of the Afternoon	*10 minutes (3:00 – 3:10)*

ORIAU DYSGU / TEACHING HOURS

Cyfnod Sylfaen	23 awr yr wythnos
CA2	24 awr yr wythnos
Foundation Phase	*23 hours a week*
KS2	*24hours a week*

GWISG YSGOL/SCHOOL UNIFORM

Mae'r wisg yn cynnwys crys chwys glas a chrys polo glas golau, gyda sgert/trowsus llwyd i'r genethod a throwsus llwyd i'r bechgyn. Yn yr Haf caniateir ffrog las a gwyn (gingham) i'r genethod a throwsus byr i'r bechgyn. Disgwylir i'r plant fod wedi ei gwisgo'n lân a bod eu dillad yn cydymffurfio â'r wisg ysgol.
Addysg Gorfforol – crys-t golau a siorts.

A fyddwch cystal a sicrhau fod enw eich plentyn wedi ei ysgrifennu neu bwytho ar bob dilledyn.

The uniform includes a royal blue sweatshirt and light blue polo shirt, with a grey skirt/trouses for the girls and grey trousers for the boys. In the summer the girls can wear a blue and white gingham dress and shorts for the boys. The children are expected to be neatly dressed which conform to the school uniform.
P.E. Uniform –t-shirt and shorts

Please ensure that your child's name is written or sewn on all clothing.

PRESENOLDEB *ATTENDANCE*

Am y flwyddyn addysgol diwethaf y presenoldeb cyfartalog oedd 95.1 %.
Cyfradd blynyddol o absenoldebau awdurdodedig oedd 4.5%.
Cyfradd blynyddol o absenoldebau anawdurdodedig oedd 0.3%.

Average attendance at Ysgol Bodfeurig for the last academic year was 94.7 %
Annual rate of authorised absences was 4.3 %.
Annual rate of unauthorised absences was 1%.

POLISI MYNEDIAD ADMISSIONS POLICY

Mae Ysgol Bodfeurig, yn unol â pholisi'r sir, yn derbyn disgyblion dosbarth meithrin ym mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Bydd plentyn yn mynychu'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn ei ben/phenblwydd yn bedair oed.

Dylai'r rhieni hynny sy'n dymuno i'w plant gael eu cofrestru, gysylltu â'r Awdurdod Addysg.

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o ysgol gynradd arall (heb newid eu cyfeiriad) gwblhau ffurflen dewis rhieni, gan nodi'r rhesymau dros y cais, ac, yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth, ei hanfon at yr Awdurdod Addysg.

Os gwrthodir cais a gyflwynir i ddisgybl gael mynediad i Ysgol Bodfeurig, gall rhieni apelio at yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.

Ysgol Bodfeurig, in accordance with county policy, accepts nursery pupils in the September following their third birthday.
The school accepts children full time in the September following their fourth birthday.

Ysgol Bodfeurig

Parents wishing to register their children should contact the Education Authority.

Parents who wish to transfer their child from another primary school (without changing their address) should complete a parental choice form noting the reasons for the application and forward it to the Education Authority after discussion with the Headteacher.

If a place at Ysgol Bodfeurig is refused to a pupil, the parents may appeal to the Education Authority and the Welsh Government.



ETHOS *ETHOS*

Ein nod yw sefydlu awyrgylch hapus ble mae pawb yn rhoi o'i orau a lle mae anghenion y plentyn unigol yn ganolog ymhob proses addysgol. Yn seiliedig ar berthynas o ofal a pharch rhwng athrawon, rhieni a disgyblion tuag at ei gilydd, byddwn yn cynorthwyo eich plentyn i ddatblygu agweddau positif, hunan hyder ac awch i ddysgu am oes.

Drwy sicrhau 'Dysgu mewn Hapusrwydd' byddwn yn llwyddo.

Our aim is to establish a happy environment where everybody strives to give their best where the individual child's requirements have a central role in every educational process. Based on mutual care and respect between teachers, parents and pupils towards one and other, we encourage pupils to develop positive attitudes, self confidence and a thirst for life long learning.

By ensuring 'Happiness in Learning' we will succeed.

GWERTHOEDD YR YSGOL *SCHOOL VALUES*

➢ Pawb i fod yn hapus a diogel yn yr ysgol.	*Everybody to be happy and safe at school.*
➢ Pawb yn gwneud eu gorau bob amser.	*Everybody to do their best at all times.*
➢ Pawb yn blant i Dduw.	*Everybody can be children of God.*
➢ Pawb i gael yr un cyfle.	*Everybody to have an equal opportunity.*
➢ Pawb i allu siared Cymraeg a Saesneg.	*Everybody to be able to speak Welsh and English.*
➢ Gofalu am blant eraill-bod yn ffrindiau.	*Look after other children – be friends.*
➢ Gwrando ar lais y plentyn	*Listen to the child's voice at all times*

CYFLEOEDD CYFARTAL *EQUAL OPPORTUNITIES*

Nod yr ysgol yw:

- Sicrhau cyfleoedd ar gyfer ein holl ddisgyblion o ba gefndir cymdeithasol bynnag, cyfleoedd cyfartal ar gyfer bechgyn a genethod, ar gyfer plant mwy galluog a thalentog a llai galluog.

- Hyrwyddo agweddau positif tuag at hil, crefydd a rhyw.
- Osgoi cyflyru ac ystrydebu yn enwedig ynglyn â'r cwricwlwm.

The school's aim is to:

- *Provide opportunities for all our pupils irrespective of social background, equal opportunities for boys and girls, for more gifted and talented and less gifted children.*
- *Promote positive attitudes towards race, religion and gender.*
- *Avoid adopting a certain mindset and stereotyping regarding the curriculum.*

Y CWRICWLWM / *THE CURRICULUM*

Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun polisiau ac athroniaeth presennol yr Awdurdod.

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn dyfu yn bersonoliaeth llawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar eu gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Mae'r amcanion cwricwlaidd yn Ysgol Bodfeurig yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi bod angen i bob plentyn ddatblygu ei botensial ef/hi. Bod pob plentyn yn elwa o gyfoeth eu hetifeddiaeth Gymreig, a bod pob plentyn yn cyfrannu tuag at gymdeithas sy'n prysur newid.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr sy'n seiliedig ar ddogfen bolisi gwricwlaidd yr Awdurdod Addysg. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys manylion ynghylch y cwrs addysg a sut y caiff ei weithredu o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau bod yr addysg a ddarparir ar gyfer y disgybl yn llwyr fodloni amcanion y ddogfen.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008 yn cynnwys y pynciau canlynol:

Pynciau Craidd Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gwybodaeth

Pynciau Anghraidd Hanes, Daearyddiaeth, Technoleg, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol

Addysg Grefyddol Yn unol a Maes Llafur Cytun yr Awdurdod Lleol.

Cyfnod Sylfaen Bydd plant dosbarthiadau Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu ystod o sgiliau drwy brofiadau a chyfleoedd chwarae strwythuredig a rhydd sy'n cyd fynd a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Mae Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn statudol ers Medi 2013 ac eisioes yn weithredol yn yr ysgol.

National Curriculum requirements are interpreted within the LEA's current policies and philosophy.

The purpose of an education system is to create situations and provide resources that will enable every child to develop into a rounded individual, develop and use all his/her talents, which will meet requirements according to age, ability and interest, and equip him/her to become a responsible member of a bilingual community, who will make a contribution to it and be its recipient, and live in peace and harmony with others.

The curricular aims at Ysgol Bodfeurig indicate that we appreciate that every child needs to develop his/her potential. That every child benefits from the wealth of the Welsh Heritage, and that every child makes a contribution towards a rapidly changing society.
Every school is required to prepare and develop a comprehensive scheme that is based on the LEA's curricular policy. This scheme will contain details on the curriculum and how it is implemented at the school so as to ensure that the education that pupils receive, fully comply with the aims set out in the document.

The 2008 National Curriculum includes the following subjects:

Core Subjects: *Welsh, English, Mathematics, Science, and Information Technology*

Foundation Subjects: *History, Geography, Technology, Art, Music, P.E.*

Religious Education: *In accordance to Authority's Religious Education Syllabus*

Foundation Phase: *Nursery, Reception, Years 1and 2 class pupils will develop a range of skills through structured and free experiences and play opportunities which comply with the Foundation Phase Framwork.*

The Literacy and Numeracy Framework, a statutory requirement as of September 2013 is implemented at the school.

AMCANION CWRICWLAIDD ARBENNIG SYDD WEDI CAEL SEL BENDITH Y CORF LLYWODRAETHOL
SPECIAL CURRICULAR AIMS THAT HAVE BEEN APPROVED BY THE GOVERNING BODY

LLYTHRENNEDD

- Datblygu sgiliau darllen, eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad beirniadol o lyfrau o bob math, a cheisio gwneud darllen yn weithgaredd pleserus gydol eu hoes.
- Rhoddid pwyslais ar lithrigrwydd ac ymdeimlad tuag at y testun. Ein nod yw ymestyn amrediad, dyfnder a safon ysgrifennu creadigol. Ein nod yw galluogi plant i gyfathrebu'n eglur, i drafod syniadau a theimladau.
- Datblygu llawysgrifen ddarllenadwy, a'r safon uchaf o ran sillafu, llythrennu, strwythur brawddeg, atalnodi a defnyddio geiriau.
- Cyfathrebu ar lafar yn eglur ac yn hyderus, mewn ffordd sy'n berthnasol i wahanol dibenion ac achlysuron.
- Ymestyn ac atgyfnerthu eu gallu a'u parodrwydd i wrando ar ac ymateb i eiriau a chasgliadau yn ddeallgar.
- Dysgu sut i ganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau, a chofnodi gwybodaeth a darganfyddiadau trwy gyfrwng gwahanol ddulliau.
- Cyfleoedd dyddiol i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd .

LITERACY

- *Develop reading skills, their critical understanding and appreciation of all types of books, and try and make reading an activity from which they derive pleasure throughout their life.*
- *Place an emphasis on fluency and have a sense of feeling towards the text. Our aim is to extend the range, depth and standard of creative writing. Our aim is to enable children to clearly communicate, discuss ideas and feelings.*
- *Develop intelligible handwriting, and achieve the highest possible standard in terms of spelling, forming letters, sentence structure, punctuation and use of words.*
- *Clearly and confidently verbally communicate, in a manner that is appropriate to various purposes and occasions.*
- *Extend and improve their ability and willingness to intelligently listen to, and respond to, words and conclusion*
- *Learn how to find information from various sources, and record information and findings using various methods.*
- *Daily cross-curricular opportunities to develop literacy skills.*

RHIFEDD A MATHEMATEG

Gweithredu sgiliau cyfrifiant yn gyflym a chywir.

- Datblygu cysyniadau a sgiliau mathemategol yn ôl potensial pob plentyn, a'u galluogi i ddeall perthnasedd mathemateg yn y byd o'u hamgylch.

- Datblygu sgiliau rhesymu rhifyddol a sgiliau rhifedd trawsgwricwlaidd.

NUMERACY AND MATHEMATICS

- *Use calculation skills both rapidly and correctly.*
- *Develop mathematical concepts and skills in accordance with every child's potential, and enable them to comprehend the relevance of mathematics in the world around them.*

Develop numerical reasoning skills and crosscurricular numerical skills.

GWYDDONIAETH

- Astudio pethau byw yn y byd o'u hamgylch ac adnabod nodweddion megis patrwm a threfn/dilyniant.
- Meistroli syniadau gwyddonol sylfaenol.
- Ymchwilio atebion, dehongli tystiolaeth, a dadansoddi a datrys problemau.

SCIENCE

- *Study living objects in the world around them and identify features such as pattern and order/sequence.*
- *Gain mastery of basic scientific ideas.*
- *Investigate answers, interpret evidence, and analyse and solve problems.*

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau TGCH ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod , datblygu , creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach.

INFORMATION TECHNOLOGY AND COMMUNICATION

- *Provide opportunities for cross-curricular development of ITC skills, through discovering, developing, creating and presenting information and ideas and by using a broad range of equipment and software.*
- *Provide opportunities to develop cross-curricular communication skills through the broader oracy, reading, writing and communication skills.*

PYNCIAU ANGHRAIDD/FOUNDATION SUBJECTS

- Dysgu hunan-barch a bod yn sensitif tuag at eraill, datblygu set o werthoedd moesol, a meddu'r hyder i leisio barn ynghylch materion moesol, a meithrin yr arfer o hunan-ddisgyblaeth ac ymddygiad cymeradwy.
- *Learn about self-respect and showing sensitivity towards others, develop a set of moral values, and have the confidence to express a view on moral issues, and foster self-discipline and commendable behaviour.*

- Datblygu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a gwerthfawrogiad o'u hamgylchfyd. Bod yn ymwybodol o'r agweddau daearyddol, hanesyddol a chymdeithasol a geir yn yr amgylchfyd lleol. Sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth genedlaethol hefyd.
- *Develop awareness, knowledge and appreciation of their environment. Be aware of the geographical, historical and social aspects to be found in the local environment. Ensure that children are aware of their national heritage.*

- Datblygu eu gallu i greu pethau â'u dwylo, hyrwyddo sensitifrwydd yn y defnydd o offer a defnyddiau a hunan-ddisgyblaeth wrth ddefnyddio arfau crefft, i'w galluogi i fynegi eu hunain trwy gyfrwng y celfyddydau creadigol a mynegiannol.
- *Develop their ability to manually create objects, promote sensitivity in the use of equipment and materials and self-discipline when using craft tools, to enable them to express themselves through the creative and expressive arts.*

- Datblygu sgiliau corfforol – hyrwyddo cryfder, ystwythder, stamina a chyd-symudiad corfforol.
- *Develop physical skills – promote strength, agility, stamina and physical co-ordination.*

- Hyrwyddo hyder mewn gweithgareddau corfforol ac annog mynegi teimladau trwy gyfrwng symudiad.
- *Promote confidence in physical activities and encourage the expression of feelings through movement.*

- Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol a phrofiad o chwarae fel aelod o dîm.
- *Provide opportunities to participate in competitive games and an experience of playing as a team member.*

Ein nod yw hyrwyddo mwynhad o weithgarwch corfforol fel bod ymarfer yn dod yn arferiad rheolaidd y bydd yr unigolyn yn dal i elwa ohono ymhell ar ôl i'w addysg ffurfiol ddod i ben.
Our objective is to promote the enjoyment of physical activity so that exercise is a regular practice that will be of further benefit to the individual long after completing his/her formal education.

Ymhlith yr amrywiaeth o ddulliau addysgu a ddefnyddir er mwyn cyflawni amcanion cwricwlaidd mae:

- Addysgu Dosbarth Cyfan
- Addysgu Grwp
- Addysgu Un i Un

Amongst the various teaching methods used to achieve curricular aims are:

- *Whole Class Teaching*
- *Group Teaching*
- *One to One Teaching*

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL *ADDITIONAL LEARNING NEEDS*

Dywedir y bydd gan tua 20% o blant anghenion addysgol arbennig ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol.
Ar gyfer y mwyafrif mawr o'r plant hyn, bydd yr ysgol prif lif yn cwrdd â'u hanghenion.
Oherwydd bod gan blant anghenion dysgu ychwanegol amrywiol, ceir system ar gyfer adnabod a darparu ar gyfer yr anghenion amrywiol hyn sy'n cynnwys 3 cam cynyddol.

Yn Ysgol Bodfeurig, rydym wedi mabwysiadu strategaeth ysgol gyfan yn unol a gofynion y Côd Ymarfer 2002 ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gyda'r nod o:

- Sicrhau dull gweithredu effeithiol ar gyfer adnabod plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhieni pan fo angen ystyried gwenud darpariaeth arbennig.
- Sicrhau bod y plentyn yn cael ei hysbysu o unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch ei addysg ef/hi.
- Darparu addysg wahaniaethol yn ôl yr angen.
- Gweithio gydag asiantaethau perthnasol, arbenigwyr ac ymgynghorwyr er mwyn sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfleoedd gorau posibl.

Mae gan yr ysgol cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol, Ms Susan Owen. Mrs Karen Duggan yw'r lywodreathwraig ADY dynodedig ar y corff .

Mae adroddiad ar agwedd yr ysgol ynghylch anghenion dysgu ychwanegol yn gynwysedig yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i rieni.

It us said that approximately 20% of children will have additional learning needs at some time during their school career.
For the vast majority of these children, their requirements will be met by the mainstream school.
As SEN children's needs vary, there is a system in place to identify and provide for those various needs that includes 3 progressive steps.

At Ysgol Bodfeurig, a whole school strategy has been adopted in accordance with the requirements of the 2002 Code of Practice for SEN with the objective of:

- *Ensuring an effective implementation method to identify SEN children.*
- *Working in partnership with parents when special provision needs to be considered.*
- *Ensuring that the child is notified of any decisions made regarding his/her education.*

- *Provide differentiated education as required.*
- *Work with relevant agencies, experts in their field and advisers so as to ensure that SEN children receive the best possible opportunities.*

The school has a designated SEN Co-ordinator, Ms Susan Owen. Mrs Karen Duggan is the designated member on the Governing body .
A report on the school's approach towards SEN is included in the Governors Annual Report to Parents.

ADDYSG GREFYDDOL *RELIGIOUS EDUCATION*

Er nad oes unrhyw gysylltiadau uniongyrchol na ffurfiol rhwng hon ac unrhyw enwadau crefyddol, mae cwrs Addysg Grefyddol yr ysgol yn seiliedig ar y ffyrdd Gristnogol.

Cynhelir gwasanaeth boreol yn ddyddiol ble cymerir rhan gan yr ysgol gyfan.

Gellir gwneud trefniadau ar wahan ar gyfer y disgyblion hynny nad yw eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu naill ai gwasanaethau crefyddol nac astudiaethau cyffelyb.

Rydym yn ystyried bod Addysg Grefyddol yn gyfrwng a all greu dylanwad positif yn natblygiad pob plentyn ac felly ei gynorthwyo i ddatblygu ei werthoedd moesol a chreu ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldebau cymdeithasol.

Although no direct and formal links exists between this school with any religious denominations, the school's Religious Education course is based on the Christian faith as a whole school or class participation

A morning Service is held daily in which the whole school participates.

Seperate arrangements may be made for children whose parents do not wish them to attend religious Services or similar studies.

We regard Religious Education as a means of creating a positive influence in the development of each child and thus addicting him to develop his moral values And create an awareness of his social responsibilities

ADDYSG RHYW *SEX EDUCATION*

Mae addysg rhyw yn cael ei ddysgu fel rhan naturiol a chyfannol o gwricwlwm yr ysgol. Ymdrinnir â'r pwnc mewn modd sensitif, gan ganolbwyntio ar agweddau corfforol a moesol a gwerthoedd bywyd teuluol. Ymdrinnir a rhan helaeth iawn o'r pwnc fel rhan o bolisi a gwaith Addysg Bersonnol a Chynllun Ysgol Iach yr ysgol . Yn naturiol , mae unrhyw ddeunydd a ddefnuyddir ar gael i rieni eu gweld.

Os hoffech dderbyn rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Pennaeth os gwelwch yn dda.

Sex education is taught as a natural and integrated aspect of the school curriculum. The subject is taught sensitively, focussing on physical and moral aspects and values of family life. A vast proportion of this subject is dealt with as part of the Personal Education curriculum and Healthy School iniciative. Of course, parents can examine any material that is used.

If you wish to receive further details, please contact the Headteacher.

POLISI IAITH *LANGUAGE POLICY*

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi ddwyieithog ym mhob un o'i ysgolion ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Y nod yw galluogi disgyblion i siarad y ddwy iaith yn hyderus fel eu bod yn dod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

Dylai'r holl sefydliadau addysgol o fewn y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefniadau bugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

Mae Ysgol Bodfeurig yn cael ei chategoreiddio fel ysgol cyfrwng Cymraeg.

Cymraeg yw iaith weithredol yr ysgol. Mae holl staff a disgyblion yn siarad Cymraeg wrth fynd o amgylch eu gweithgareddau dydd i ddydd. Cynhelir gwasanaethau'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.
Cyfnod Sylfaen:
Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu trochi yn y Gymraeg ac yn derbyn eu haddysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe gyflwynir Saesneg erbyn diwedd Blwyddyn 2.
Cyfnod Allweddol 2:
Mae disgyblion CA2 yn derbyn gwersi drwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal a'r Gymraeg. Erbyn Bl 6 mae cydbwysedd cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn cael cyfuniad o wersi iaith a thrawsgwricwlaidd yn y ddwy iaith.

Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd
Mae'r ysgol wedi ymrwymo i nodau ac amcanion Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd ac wedi ei dilysu yn Ysgol Efydd ac Arian. Rydym yn gweithredu gofynion Y Wobr Aur.
Ein gweledigaeth yw fod pob aelod o staff yr ysgol wedi ymrwymo i'r nod o sicrhau fod pob disgybl yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog hyderus , sy'n ymfalchio yn eu diwylliant Cymreig ac yn eu cenedligrwydd.
Gweledigaeth y Cyngor Ysgol:- Siarad Cymraeg bob amser yn bob man!

GENERAL AIMS

Gwynedd LEA implements a bilingual policy in all of its schools and is also developing a bilingual policy for Further Education establishments.

The objective is to enable pupils to confidently speak both languages so that they can fully participate in the bilingual society to which they belong.

All educational establishments within the county should reflect and reinforce the language policy in their administration, their social life and pastoral arrangements as well as in their academic provision.

Ysgol Bodfeurig is classified as a Welsh medium school.

Welsh is the school's operational language. All staff members and pupils communicate through the medium of Welsh. All school services, be they religious or otherwise, are conducted through the medum of Welsh.
Foundation Phase
Foundation Phase pupils are immersed in the Welsh language. All subjects are tought through the medium of Welsh. Pupils will be introduced formally to English during Year 2.
Key Stage 2
Pupils are taught in English as well as in Welsh in KS2. By the time children are in Year 6 there is a balance between both languages. Pupils will be taught both Welsh and English language lessons as well as having cross-curricular lessons taught through both mediums.

Gwynedd Schools Welsh Charter
Ysgol Bodfeurig is committed to the aims and objectives of the Gwynedd School's Welsh Charter and has been accredited a Bronze and Silver Award School.We are working toward a Glod Award accreditation.

Our vision is that every member of staff is committed to the aim of ensuring that every child has opportunities to develop into confident bilingual citizens who are proud of their Welsh heritage and nationality.

School Council Vision:- *Speak Welsh everyday and everywhere!*

CODI TAL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL / *CHARGING FOR EDUCATIONAL ACTIVITIES*

Yn unol â Deddf Addysg 1988, ni chodir tâl am y gweithgareddau canlynol:

1. mynediad i'r ysgol.
2. yr addysg a dderbynnir yn ystod oriau ysgol.
3. defnyddiau/cyfarpar ar gyfer gwersi yn ystod oriau ysgol.

Mae hawl gennym, fodd bynnag, i ofyn am gyfraniadau gwirfoddol ar gyfer ymweliadau neu weithgareddau addysgol yn ystod oriau ysgol yr ystyrir bod y plant yn elwa ohonynt yn addysgol.

Mae'r Pennaeth wedi ei awdurdodi i godi tâl ar y disgyblion am y gweithgareddu canlynol:

1. gweithgareddau tu allan i oriau ysgol.
2. achosion ble mae disgybl wedi peri difrod i unrhyw ran o adeilad yr ysgol.
3. pan fo disgybl yn colli neu'n difrodi llyfrau, cyfarpar neu unrhyw beth sy'n eiddo i'r ysgol.

In accordance with the 1988 Education Act, no charge is imposed for the following activities:

- *school admission.*
- *the education that is provided during school hours.*
- *materials/equipment provided for lessons during school hours.*

However, we are entitled to request voluntary contributions towards educational visits or activities during school hours, and which are deemed to be visits or activities from which the children will benefit.

The Headteacher has been authorized to charge pupils for the following activities:

- *activities held outside school hours.*
- *instances where a pupil has damaged any part of the school building.*
- *when a pupil has lost or has damaged books, equipment or school property.*

ABSENOLDEB O'R YSGOL / *ABSENCE FROM SCHOOL*

- Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar rieni anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd.
- Mae cyfrifoldeb y rhiant yn ymestyn at sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.
- Mae'r rhieni yn gyfrifol am hysbysu'r ysgol (drwy ffonio) cyn gynted ag y bo modd os yw eu plentyn yn absennol, a rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallent fod ei hangen.
- Gall yr ysgol ofyn am gymorth gan y Swyddog Lles Addysgol a hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol os yw'r presenoldeb afreolaidd disgybl yn peri pryder.
- Mae'r ysgol yn anelu at darged presenoldeb o 96+%.

- *Parents have a legal duty to regularly send their children to school.*
- *The parent's responsibility extends to ensuring that their children arrive at school punctually.*
- *The parents are responsible for notifying the school (by making a telephone call) as soon as possible if their child is absent, and provide any additional information that may be required.*
- *The school can request the Educational Welfare Officer's assistance and notify the LEA if a pupil's irregular attendance is a cause for concern.*

- *The school's attendance target is 96+%.*

GADAEL TIR YR YSGOL

Ni chaiff unrhyw ddisgybl adael tir yr ysgol yn ystod oriau ysgol, heb ganiatâd swyddogol. Mae'n ofynnol i rieni gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Pennaeth er mwyn cael caniatâd o'r fath.

Noder na throsglwyddir unrhyw blentyn i ofal unrhyw un nad yw'r athrawon yn gyfarwydd â hwy heb ganiatâd ysgrifenedig gan y rhiant/gwarcheidwad ymlaen llaw.

LEAVING THE SCHOOL GROUNDS

All pupils are prohibited from leaving the school grounds during school hours, unless this has been officially authorized. Parents are required to present a written request to the Headteacher to receive her permission.

Note that no child will be transferred to the care of anybody with whom the teachers are unacquainted unless written permission has been received from a parent/guardian beforehand.

ADDYSG GORFFOROL A NOFIO *PHYSICAL EDUCATION AND SWIMMING*

Mae addysg gorfforol yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dyrennir dau sesiwn addysg gorfforol wythnosol ar gyfer pob dosbarth. Cyflwynir nifer o gêmau i'r plant yn ystod yr amser a dreuliant yn yr ysgol. Cânt gyfle i chwarae pêl-droed, pêl-rwyd, criced, tennis, rownderi, athletau, nofio, rygbi a hoci. Mae'r ysgol wedi ei achredu gyda Marc Safon Addysg Gorfforol gyda canmoliaeth uchel .

Cynhelir Clwb Campau'r Ddraig am gyfnodau penodedig yn ystod y flwyddyn ysgol. Rhydd hyn gyfle i ddisgyblion CA2 ddatblygu sgiliau amrywiol. Mae pob disgybl yn cymryd rhan yn y Clwb Dal i Fynd gyda'r nod o ddatblygu lefelau ffitrwydd pob plentyn dros gyfnod o amser. Cymerant ran mewn cystadlaethau a drefnir yn lleol a chan y Sir.

Physical education forms part of the National Curriculum. Two sessions are held weekly for each class. The children are introduced to several games during their time at the school. They receive an opportunity to play football, net-ball, cricket, tennis, rounders, athletics, swimming, rugby and hockey. Ysgol Bodfeurig has been accredited with the Physical Education Standard Mark .

Dragon Sports activities are conducted at specific times during the year where KS2 pupils are given the opportunity to develop various skills . Each pupil at the school takes part in Clwb Dal i Fynd where the aim is to develop each child's fitness levels over time.Pupils participate in locally and County organized competitions..

GOFAL BUGEILIOL *PASTORAL CARE*

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro neilltuol, ond mae'r holl staff yn ceisio gofalu am les disgyblion. Mae'r ysgol yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, a dangos parch tuag at eraill. Gwyddom y gallwn ddibynnu ar gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

Mae'r holl athrawon yn gyfrifol am ofal bugeiliol, ac maent yn cynnwys y dyletswyddau canlynol:

- Cofrestru eu grwpiau ddwywaith yn ddyddiol, yn y bore, ac ar ddechrau'r prynhawn.
- Gwneud yn siwr bod disgyblion yn cyrraedd yn brydlon a'u bod yn bresennol.
- Cyflwyno'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r disgyblion, trwy anfon llythyrau at rieni.
- Paratoi adroddiad llafar neu ysgrifennedig i rieni ar gynnydd eu plentyn yn dymhorol.

Yn yr adroddiad diweddaraf nododd Estyn fod gofal a lles y disgyblion yn dda.

Every child is placed under the care of a particular teacher, but the entire staff tries to protect pupils' well-being. The school encourages children to show self-discipline, and show respect towards others. We know that we can rely on parents support in this respect.

All the teachers are responsible for pastoral care, and these include the following duties:

- *Registering their groups twice daily, in the morning, and at the start of the afternoon.*
- *Ensure that pupils arrive punctually and that they attend.*
- *Present the pupils with all the necessary information, by sending parents letters.*
- *Prepare termly verbal or written reports on your child's progress.*

In the latest report,Estyn noted that care and wellbeing of the pupils was good.

MEDDYGOL *MEDICAL*

Mae Nyrs Ysgol yn ymweld â'r ysgol o dro i dro er mwyn cynnal profion golwg a chlyw, ac edrych ar faterion sy'n ymwneud â hylendid a iechyd yn gyffredinol. Efallai y bydd angen i feddyg ysgol gynnal archwiliadau meddygol ar rai plant yn flynyddol (gyda rhiant yn bresennol).

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol ynghylch unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai amharu ar fywyd ysgol plentyn.

Os oes angen i'ch plentyn gymryd moddion yn ystod oriau ysgol, sicrhewch eich bod yn trafod hyn yn llawn gyda'r Pennaeth gan gwblhau'r ddogfennaeth berthnasol angenrheidiol.

A school nurse visits the school from time to time to hold vision and hearing tests, and examine general hygiene and health issues. Perhaps, a school doctor will need to hold annual medical inspections on certain children (with a parent in attendance).

Parents are expected to notify the school of any medical or clinical condition that could impair a child's school life.

If your child needs to take medicine during school hours, ensure that you discuss this fully with the Headteacher, and complete the necessary relevant documentation.

DIOGELWCH *SAFETY*

Dylai disgyblion barchu rheolau syml Iechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser.

Gwahaerddir dringo waliau neu ffensys. Os yw pêl wedi mynd dros wal, yna rhaid i ddisgyblion aros nes mae'r egwyl drosodd, cyn gofyn caniatâd gan aelod o staff i fynd i'w nôl.

Cynhelir ymarferion tân bob tymor.

Mae'r disgyblion yn gyfrifol am bob eiddo personol. Gwerthfawrogir pe bai pob eitem (dilladau, bagiau, pyrsiau ayb) yn cael eu marcio'n eglur er mwyn gallu eu hadnabod.

Ni ddylid dod â phethau gwerthfawr i'r ysgol. Oni ellir osgoi hynny, dylid trosglwyddo unrhyw eitemau neu arian yn syth i'r athro/athrawes.

Disgwylir i unrhyw ddisgybl a geir yn euog o ddifrodi eiddo'r ysgol dalu am y difrod.

Pupils should at all times, comply with the school's simple Health and Safety rules.

Climbing of walls or fences is prohibited. If a ball has gone over a wall, pupils must wait until breaktime is over, before asking permisison from a member of staff to fetch it.

Fire drills are held each term.

Pupils are responsible for all personal property. It would be appreciated if all items of clothing, bags, purses etc are clearly labelled so that they can be identified.

Valuables should not be brought to school. If this cannot be avoided, any items or money should be immediately handed over to the teacher.

Any pupil found guilty of damaging school property is expected o recompense the school.

ANABLEDD *DISABILITY*

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Polisi Anabledd, ac mae plant gyda anabledd corfforol yn mynychu'r ysgol. Mae'r Llywodraethwyr yr ysgol yn gefnogol i addasiad y byddai angen ei wneud ar gyfer derbyn plentyn neu oedolyn gyda anabledd.

The school has adopted a Policy on Disability, and there are physically disabled children attending the school. The school's governors are supportive of any adjustments required so as to provide access for a disabled child or adult.

TREFN GWYNO *COMPLAINTS PROCEDURE*

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu trefn ar gyfer ystyried cwynion ynghylch sut mae Cyrff Llwyodraethol ysgolion a'r Awdurdodau Addysg yn gweithredu mewn perthynas â'r cwricwlwm ysgol, addysg grefyddol a materion eraill cysylltiedig.

Amlinellir y drefn hon mewn dogfen yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol ac mae crynodeb ar gael ar ddiwedd y llawlyfr ac ar wefan yr ysgol.

Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir delio â llawer o gwynion yn gyflym ac yn effeithiol trwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth.

Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf i'w gymryd, a byddai'r Corff Llywodraethol yn disgwyl y byddai'r cam hwn wedi ei gwblhau cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaeth.

The LEA, in accordance with Assembly Government requirements, has established a system to consider complaints on how school Governing Bodies and LEA's implementation of the school curriculum, religious education and other related matters.

This system is set our in a document of which both a Welsh and English version is available at the school as well as an abbreviated copy at the end of the handbook and on the school's website.

A copy is provided free of charge, as required, to any parents who wish to lodge a complaint in line with the arrangements, and the LEA can provide a copy other than in Welsh and English should that be required.

However, it is emphasised, that many complaints can be rapidly and effectively dealt with through informal consideration based on discussions with the Headteacher.

This is the first reasonable measure ton take, and the Governing Body would expect this step to have been taken before the complaint is formally lodged in exceptional cases.

The school should be contacted to make an appointment to discuss any complaint with the Headteacher.

DISGYBLAETH *DISCIPLINE*

Mae polisi'r Awdurdod ar ddisgyblaeth mewn ysgolion, ynghyd â pholisi'r ysgol, yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon.
Mae'r drefn disgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro/awes yn gyfrifol am ymddygiad ei dd/dosbarth ei hun, ond, os oes angen, gellir cyfeirio'r disgybl i sylw'r sawl sydd â chyfrifoldeb am ddisgyblaeth yn yr Adran, neu i sylw'r Pennaeth. Mewn rhai achosion o gamymddwyn, bydd plentyn yn colli pum munud o'i amser chwarae fel cosb. Byddwn yn barod i roi gwybodaeth i chi am unrhyw gamymddwyn o bwys, gan eich gwahodd i'r ysgol i drafod ymddygiad eich plentyn.

The LEA's policy on discipline in schools, as well as the school's policy, governs how children are disciplined at this school. The disciplinary arrangements are based on a policy whereby every teacher is resposnible for the behaviour of his/her own class, but, if it is required, the pupil can be referred for the attention of the individual with responsibility for discipline in the Department, or to the Headteacher. In certain instances of misconduct, the child will miss five minutes of play time, as a punishment. We are willing to provide you with any information on serious misconduct, and invite you to the school to discuss your child's behaviour.

YMDDYGIAD *BEHAVIOUR*

Mae disgwyl i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:

i) fod yn feddylgar, yn garedig ac yn foneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol, ac unrhyw ymwelwyr;
ii) beidio â gwneud difrod bwriadol nac ymyrryd ag eiddo eraill, rhegi a defnyddio iaith anweddus, a bod yn anghwrtais ac ateb yn ôl;
iii) wneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus, rhoi ysbwriel yn y bin, a pheidio ag ysgrifennu ar y waliau;
iv) beidio â dod â phethau personol i'r ysgol, e.e. teganau (oni ofynnir amdanynt gan athro/awes), a gemau (jewellery);
v) geisio anelu at fyw yn iach, felly rydym yn annog ffrwythau yn unig amser chwarae.

Mae gennym ddogfen bolisi gynhwysfawr ar ymddygiad, disgyblaeth a chosb yn yr ysgol. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn llunio rheolau dosbarth eu hunain yn dymhorol.
Pan fo plentyn yn parhau i gam ymddwyn, gan amharu ar rediad naturiol yr ysgol, rydym yn ystyried, ac yn gweithredu, y gosb eithaf o wahardd plentyn, yn ôl canllawiau'r A.A.Ll.

Every pupil is expected to contribute towards creating a civilized school community through:

i) be considerate, kind and courteous towards other pupils, entire school staff, and any visitors;
ii) not cause wilful damage to or interfere with the property of others, swear and use foul language, and show discourtesy and answer back;
iii) make every effort to keep the school and its environment tidy, place litter in the bin, and not write on the walls;
iv) not bring personal items to school, e.g. toys (unless requested by a teacher), and jewellery;
v) try and adopt a healthy lifestyle, therefore we urge children to eat fruit only during play time.

We have a comprehensive policy document on behaviour, discipline and punishment at the school. The pupils also draw up class rule every term.

When a child continues to misbehave, to the detriment of the natural running of the school, we consider and implement, the ultimate sanction of suspending a child, in accordance with LEA guidelines.

CYSWLLT RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL *HOME SCHOOL LINKS*

Caiff rhieni eu hannog i gymryd diddordeb byw yn addysg eu plentyn, a datblygu perthynas iach rhwn yr ysgol a'r cartref.

- Gwahoddir rhieni i'r ysgol bob tymor i drafod cynnydd eu plant yn y noson rieni.
- Mae croeso i rieni, wrth gwrs, drefnu apwyntiad i drafod eu plentyn gyda'r athro unrhyw adeg.
- Mae'r ysgol yn gobeithio sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth rhieni gydag unrhyw weithgaredd ychwanegol a drefnir.
- Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer pob disgybl, sydd ym marn y Pennaeth, yn barod ac yn ddigon aeddfed i gymryd rhan ynddynt.

Parents are encouraged to take an active interest in their child's education, and to develop a healthy relationship between the school and the home.

- *Parents are invited to visit the school each term to discuss their children's progress, at the parents evening.*
- *Parents are of course, welcome to arrange an appoitment to discuss their child with the teacher, at any time.*
- *The school hopes that parents will co-operate and provide support in any additional activity that is organized.*
- *The school offers various activities for every pupil, who are, in the Headteacher's judgement, ready and sufficiently mature to participate in them.*

CLYBIAU *CLUBS*

Clwb Brecwast/ *Breakfast Club*
Cynhelir Clwb Brecwast o 8.00 y bore./ *A Breakfast Club is held each morning from 8.00a.m*

Clwb Hwyl Ardal Tregarth –Clwb ar ol Ysgol/After School Club
Cynhelir Clwb Hwyl Ardal Tregarth yn ddyddiol rhwng 3:30 yh- 5:30 yh. Mae croeso i ddisgyblion Ysgol Bodfeurig gofrestru efo'r clwb. Mae'r clwb ar ôl ysgol yn gofalu am hyd at 24 o blant rhwng 3-11 oed.Mae'r clwb yn gofrestredig gyda AGGCC. Manylion cofrestru ar gael gan Mrs Llinos Barnes yn yr ysgol. Rhif ffon cyswllt: **07554273626**
Clwb Hwyl Ardal Tregarth is open daily between 3:30pm -5:30pm . Ysgol Bodfeurig pupils are welcomed to register with the club.The after school club provides care for up to 24 children under the age of 11years old. The club is registered with the CSSIW. Please contact Mrs Llinos Back for details at the school . Club contact phone number: **07554273626**